# Taliad Cymorth Gofal Plant Prifysgol Abertawe (Ôl-raddedig) 2024-25 - Amodau a Thelerau

Mae'r Dyfarniad Gofal Plant yn ddyfarniad atodol a roddir o Gronfa Galedi Prifysgol Abertawe i gefnogi myfyrwyr ôl-raddedig cofrestredig sy'n derbyn grant gofal plant gan eu darparwr cyllid.

Gweler isod yr amodau a thelerau ar gyfer y taliad cymorth gofal plant.

## Pwy sy'n gymwys?

I fod yn gymwys i gyflwyno cais am y fwrsariaeth, mae'n rhaid eich bod:

- Yn derbyn eich benthyciad ôl-raddedig llawn gan eich darparwr cyllid (h.y. Os ydych wedi dewis cymryd rhan o'r benthyciad ôl-raddedig yn unig, ni fyddwch yn gymwys).
- Darparu derbynebau meithrinfa swyddogol sy'n nodi enw'r plentyn
- Mae'n rhaid i'r plentyn/plant fod rhwng 0-5 mlwydd oed

## Tystiolaeth angenrheidiol

- Student Finance England/Cyllid Myfyrwyr Cymru – Llythyr hysbysiad ariannol y flwyddyn academaidd bresennol.
- Anfoneb/derbynneb sydd wedi'i dyddio o fewn y mis diwethaf gan eich darparwr gofal plant cofrestredig. Rhaid i hyn ddangos enw eich plentyn/plant. Os oes gennych fwy nag un plentyn mewn gofal plant, rhaid i chi ddarparu anfoneb sy'n nodi enwau pob plentyn.
- 1 mis o ddatganiadau banc diweddar.

## Terfynau Amser

Bydd ceisiadau i'r Taliad Cymorth Gofal Plant yn agor yn ystod tymor cyntaf y brifysgol ac yn cau ar ddiwedd yr ail dymor (dyddiadau i'w cadarnhau). Rhaid cyflwyno ceisiadau rhwng y dyddiadau hyn.

Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod a yw eu cais ar gyfer y Taliad Cymorth Gofal Plant wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

Rydym yn ceisio prosesu'r holl daliadau o fewn 15 niwrnod gwaith. Os caiff eu cymeradwyo, bydd taliadau yng nghyfrif banc yr ymgeisydd o fewn 7 i 10 niwrnod gwaith.

## Talu

Caiff y taliad hwn ei wneud mewn un dyfarniad. Bydd myfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn derbyn un taliad.

Dim ond un taliad a wneir o ran Taliad Cymorth Gofal Plant ar gyfer hyd y cwrs, a disgwylir i'r myfyrwyr gyllidebu'r taliad hwn. Os cyflwynir cais arall am gostau gofal plant, bydd Arian@BywydCampws yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod swm llawn y Taliad Cymorth Gofal Plant wedi cael ei ddefnyddio tuag at gostau gofal plant.

## Llwybrau amser llawn a rhan-amser

- 1 Plentyn £750.00
- 2 Blentyn £950.00
- 3 neu fwy o blant £1150.00

## Telerau Cyffredinol

Nid yw Taliad Cymorth Gofal Plant Prifysgol Abertawe'n daliad statudol ac nid oes hawl awtomatig ar gyfer blynyddoedd dilynol.

Taliad untro yw hwn, a gall myfyrwyr gyflwyno cais unwaith fesul blwyddyn academaidd pan fydd y gronfa ar gael.

Nod y fwrsariaeth hon yw ategu cymorth gofal plant a geir gan ddarparwr cyllid myfyrwyr.

Rhaid i'r holl dystiolaeth ategol gael ei chyflwyno er mwyn i gais gael ei ystyried.

Arian@BywydCampws fydd yn penderfynu a yw cais yn llwyddiannus/aflwyddiannus ac mae'r holl benderfyniadau'n rhai terfynol.

Os byddwch yn derbyn y fwrsariaeth nid yw hyn yn eich atal rhag cyflwyno cais am gymorth ariannol drwy Gronfeydd Caledi'r Brifysgol.

Money.campuslife@abertawe.ac.uk